Ysgrifennydd y Cabinet yn Agor Estyniad Ysgol



Mae estyniad newydd sylweddol yn Ysgol Bro Gwaun yn Abergwaun wedi'i agor yn swyddogol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, AS.

Mae'r datblygiad gwerth £10.9 miliwn yn darparu amgylchedd dysgu ac addysgu arloesol i 525 o ddisgyblion, rhwng 11 a 16 mlwydd oed.

Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol dwyieithog a chyfleusterau cymunedol newydd.

Mae'r estyniad yn rhan o fuddsoddiad gwerth £14.7miliwn yn Ysgol Bro Gwaun, sy'n cynnwys dymchwel rhan fwyaf o'r adeilad ysgol presennol a chyfleusterau chwaraeon newydd.

Mae hefyd yn cynnwys gwaith yn ymwneud â chadw'r neuadd bresennol, y gampfa, y gegin a'r cyfleusterau bwyta.

Mae'n un o amryw o ysgolion newydd sydd wedi'u hadeiladu – neu'n cael eu hadeiladu – yn Sir Benfro dan Raglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif, cydweithrediad rhwng Cyngor Sir Penfro a Llywodraeth Cymru sy'n rhannu'r nawdd.

Croesawyd Mrs Williams i'r ysgol ar ddydd Iau (3 Mai) gan Gadeirydd y Cyngor, Paul Harries - ef ei hun yn gyn-ddisgybl hen Ysgol Uwchradd Abergwaun - a'r pennaeth Paul Edwards.

Cyn dadorchuddio plac i nodi'r agoriad swyddogol, dywedodd y byddai dros 150 i ysgolion a cholegau yng Nghymru yn cael eu hailosod a'u hadnewyddu erbyn blwyddyn nesaf, diolch i gynllun Ysgolion yr 21ain Ganrif sydd werth £1.4 biliwn, a bydd buddsoddiad pellach o £2.3 biliwn o 2019 ymlaen.

Yn ystod y seremoni, cafodd ymwelwyr eu diddanu gan ddisgyblion blwyddyn 11 Ioan Evans, Elin Williams a Vaughan Batty a fu'n canu'r delyn.

Yn hwyrach, cafodd yr Ysgrifennydd y Cabinet daith o amgylch y bloc adeiladau 5,000 metr sgwâr a chwrdd â disgyblion a staff dysgu.

Cafodd yr estyniad ei adeiladu gan BAM Construction Limited. Mae'r cwmni a'r adeilad newydd ill dau wedi cyrraedd y rhestr fer yng Ngwobrau Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru.

Pennawd

Llun 1: Disgyblion Blwyddyn 7 Morgan Bateman a Keisha Burton yn helpu Ysgrifennydd y Cabinet Kirsty Williams i ddadorchuddio'r plac. Hefyd yn y llun mae'r pennaeth Paul Edwards a Chadeirydd y Cyngor Sir, Paul Harries.



Llun 2: Kirsty Williams gyda'r telynorion Vaughan Batty, Elin Williams ac Ioan Evans.

ID: 3466, revised 04/05/2018